

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Clinig Coety, Ysbyty Tywysoges

Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm

Taf Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 13, 14 a 15 Tachwedd 2024

Dyddiad cyhoeddi: 9 Mawrth 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom.....	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym	11
Ansawdd Profiad y Claf	11
Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol.....	15
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	25
4. Y camau nesaf	30
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	31
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith.....	32
Atodiad C - Cynllun gwella.....	33

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Glinig Coety, Ysbyty Tywysoges Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 13, 14 a 15 Tachwedd 2024. Mae'r clinig yn darparu asesiadau a chymorth i ddynion a menywod â symptomau iechyd meddwl aciwt y mae angen gofal arnynt fel cleifion mewnol. Adolygwyd wardiau canlynol yr ysbyty yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward 14, Ward Derbyniadau ac Asesu Seiciatrig Acíwt i Oedolion (16 o welyau)
- Uned Gofal Seiciatrig Dwys (PICU) (8 gwely).

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd gofal iechyd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol (yr oedd un ohonynt yn adolygydd enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl) ac un adolygydd profiad y claf.

Yn ystod yr arolygiad gwnaethom siarad â'r cleifion neu eu gofalwyr er mwyn clywed am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 14 o holiaduron gan y staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Ni chododd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw drwy gydol yr arolygiad unrhyw bryderon am eu gofal a'u triniaeth a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel. Gwelsom aelodau o'r staff yn neilltuo amser i'r cleifion ac yn eu trin yn garedig. Rhoddwyd gwybodaeth i'r cleifion am yr hyn y gallent ei ddisgwyl yn ystod eu cyfnod yn aros ar bob ward ac fe'u hysbyswyd am eu hawliau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd eiriolwr yn ymweld â'r ward bob wythnos i helpu'r cleifion ag unrhyw faterion a oedd ganddynt mewn perthynas â'u gofal.

Gwelsom dystiolaeth fod rhai o'r cleifion wedi cael asesiadau gofal iechyd corfforol adeg eu derbyn. Fodd bynnag, nodwyd enghreifftiau gennym hefyd lle nad oedd asesiadau wedi'u cynnal er gwaethaf risgiau hysbys. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob claf yn cael asesiad gofal iechyd corfforol priodol a bod cynllun gofal a thriniaeth yn cael ei roi ar waith ar gyfer cleifion y nodwyd bod ganddynt gyflyrau gofal iechyd er mwyn helpu'r staff i reoli eu cyflwr yn ddiogel. Gwelsom fod y cleifion yn destun arsylwadau corfforol rheolaidd drwy gydol eu cyfnod yn y clinig a'u bod yn cael cymorth drwy fentrau hybu iechyd eraill fel mentrau ar gyfer rhoi'r gorau i smygu.

Gallai'r cleifion ddewis eu bwyd a'u dillad eu hunain i'w helpu i fod yn annibynnol. Roedd y cleifion yn gallu storio eu heiddo personol a phersonoli eu hystafelloedd lle y bo'n briodol. Fodd bynnag, nid oeddem o'r farn bod amgylchedd y wardiau yn helpu i gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion yn llawn, yn enwedig mewn perthynas â rhywedd. Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd sicrhau, lle y bo'n bosibl, fod yr amgylchedd yn bodloni gofynion Deddf Iechyd Meddwl 1983 - Cod Ymarfer Cymru (2016) mewn perthynas ag ardaloedd a chyfleusterau toiled rhywedd-benodol dynodedig ar y ddwy ward.

Yn ôl yr hyn a welwyd, nid oedd cyfleusterau therapi ar gael ac ni welsom y cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn ystod yr arolygiad. Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd wneud mwy i sicrhau y gall y cleifion gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau therapiwtig a chymdeithasol wedi'u teilwra at yr unigolyn i'w helpu i wella.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid sicrhau bod gwybodaeth hybu iechyd berthnasol ar gael er mwyn helpu'r cleifion i wneud penderfyniadau sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd a'u llesiant

- Rhaid nodi dewisiadau iaith a gofynion cyfathrebu cleifion a'u cofnodi adeg eu derbyn.
- Rhaid datblygu polisi i roi arweiniad i'r staff ar ddefnyddio cyfarpar electronig, dyfeisiau ffôn symudol a mynediad i'r rhyngwrdd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Yn ôl yr hyn a welwyd, roedd yr aelodau o staff a oedd yn gweithio ar bob ward yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Roedd pob un o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth y maent yn ei roi i gleifion.

Roedd amrywiaeth o bolisiau iechyd a diogelwch cyfredol ar gael ac roedd asesiadau risg priodol yn cael eu cynnal. Roedd gwiriadau wythnosol yn cael eu cynnal o'r cyfarpar adfywio a'r cyfarpar brys. Roedd amrywiaeth o bolisiau rheoli meddyginiaethau perthnasol ar gael ac roedd gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer storio meddyginiaethau yn ddiogel ar bob ward.

Roedd yn siomedig nodi bod cyflwr cyffredinol y ddwy ward wedi gwaethygu'n sylweddol ers ein harolygiad blaenorol ym mis Tachwedd 2017 a bod hynny'n cyfyngu ar allu'r staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Nodwyd gennym fod y materion hyn eisoes wedi'u nodi gan y staff a bod rhaglen waith yn yr arfaeth i'w datrys. Yn yr achos hwn, ni wnaethom gyhoeddi hysbysiad sicrwydd ar unwaith mewn perthynas â'n pryderon, ond rhaid nodi nad oedd cyflwr y safle fel y'i gwelwyd yn adlewyrchu gwasanaeth iechyd meddwl modern i gleifion mewnol ac rydym yn argymhell y dylid rhoi blaenoriaeth i gwblhau gwaith adnewyddu mewn modd amserol.

Nid oedd unrhyw bwyntiau galw am nyrs wedi'u gosod yn ystafelloedd gwely'r cleifion ar PICU ac nid oedd y pwyntiau galw am nyrs ar Ward 14 wedi'u lleoli'n agos at y gwelyau. Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau hyn er mwyn penderfynu a yw'n cydymffurfio â'r canllawiau cenedlaethol sy'n nodi y dylid sicrhau y gall aelodau o staff, cleifion ac ymwelwyr dynnu sylw pan fyddant yn y clinig, yn enwedig pan fyddant ar eu pen eu hunain yn yr ystafelloedd gwely.

Gwnaethom nodi problemau mewn perthynas â lleoliad yr ystafell ymgynghori a oedd yn cael ei defnyddio fel lle diogel ar gyfer unigolion sy'n cael eu cadw o dan Adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl a'r ffordd roedd yr ystafell wedi'i threfnu. Dywedwyd wrthym fod adolygiad wrthi'n cael ei gynnal i benderfynu a fyddai'n ymarferol creu ystafell Adran 136 ganolog i'w defnyddio gan yr ardal leol. Rydym wedi gofyn i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd ynghylch y camau gweithredu a gaiff eu

cymryd yn y cyfamser i gyrraedd y safonau arferion gorau ar gyfer cyfleuster asesu Adran 136 ac amlinellu sut y caiff unigolion eu cadw'n ddiogel dan ei ofal.

Gwnaethom edrych ar y rhan o'r clinig a oedd yn cael ei defnyddio i gadw cleifion ar wahân, a nodwyd gennym nad oedd yn cydymffurfio â'r safonau arferion gorau na pholisi a gweithdrefnau'r bwrdd iechyd ar gyfer cadw cleifion ar wahân. Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau ar gyfer cadw cleifion ar wahân a gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod polisi'r bwrdd iechyd a'r safonau arferion gorau yn cael eu dilyn.

Gwnaethom nodi sawl mater a oedd yn gysylltiedig ag atal a rheoli heintiau ar y ddwy ward. Er enghraifft, roedd y swyddfa nyrsio ar Ward 14 yn llychlyd ac yn cynnwys cabinet a oedd wedi rhydu, nid oedd peiriant golchi dillad na pheiriant sychu dillad ar y naill ward na'r llall, nid oedd sinc a oedd yn gweithio yn yr ystafell clinig ar Ward 14 ac roedd poteli o ddioddydd wedi'u hagor yn cael eu storio ar y llawr yng nghegin y PICU. Yn ogystal, roeddem yn poeni am effeithiolrwydd yr archwiliadau atal a rheoli heintiau o ystyried y materion a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad. Rhaid i'r bwrdd iechyd weithredu i ymdrin â'r materion hyn ac i atgyfnerthu ei brosesau archwilio a goruchwyllo.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ymdrin â'r materion amgylcheddol y gellir eu hatgyweirio heb fod angen unrhyw raglen waith gynlluniedig ehangach, a datrys y materion hynny
- Rhaid creu ystafell neu ardal sy'n addas i blant lle gall cleifion gwrdd ag ymwelwyr heb effeithio ar gleifion eraill yn y clinig
- Rhaid i'r gwiriadau stoc dyddiol a gynhelir yn erbyn y cofnodlyfr cyffuriau a reolir gael eu cofnodi'n briodol ar Ward 14
- Rhaid cwblhau siartiau'r Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth yn briodol ac yn gywir
- Rhaid gwella ansawdd y wybodaeth sy'n berthnasol o safbwynt clinigol sy'n cael ei dogfennu ar y cofnodion arsylwi manylach
- Rhaid i'r cleifion gael eu monitro'n briodol o safbwynt maeth a hydradu a rhaid sicrhau bod gwasanaethau deietetig arbenigol ar gael iddynt pan fo'u hangen er mwyn helpu i ddiwallu eu hanghenion meddygol yn llawn
- Cynnal adolygiad o'r trefniadau arlwygo a diogelwch bwyd sydd ar waith ar y ddwy ward er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r canllawiau arferion gorau perthnasol
- Rhaid gwella'r broses a'r ddogfennaeth ar gyfer cynllunio gofal a thriniaeth yn sylweddol er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd prosesau priodol ar waith i storio cofnodion papur y cleifion yn ddiogel
- Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ac yn dangos gwybodaeth dda am y gweithdrefnau diogelu a'r trefniadau adrodd
- Roedd y dogfennau cadw statudol a welsom yn dangos bod y bwrdd iechyd yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yn ymddangos bod prosesau llywodraethu a goruchwyllo priodol ar waith o ran gweithgareddau a chyfarfodydd i drafod materion yn ymwneud â gofal cleifion. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff y byddent yn argymhell y clinig fel lle i weithio ynddo ac y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir gan y clinig iddyn nhw eu hunain neu i'w ffrindiau a'u teulu. Ar y cyfan, cawsom adborth cadarnhaol gan y staff am eu rheolwyr llinell uniongyrchol. Fodd bynnag, gwnaeth rhai aelodau o'r staff hefyd godi pryderon gyda ni yn eu holiaduron staff. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud yn bennaf ag uwch-reolwyr y bwrdd iechyd ac yn cyfeirio at ddiffyg strategaeth ac arweinyddiaeth canfyddedig ac at benderfyniadau nad oeddent bob amser er lles pennaf y cleifion. Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd ymgysylltu â'r staff er mwyn deall eu safbwyntiau yn llawn, ac rydym wedi gofyn am sicrwydd ynghylch y camau y bydd yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd.

Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym fod nifer y staff ar gyfer Ward 14 wedi cael ei leihau oherwydd gostyngiad yn nifer y gwelyau. Roedd rhai o'r staff yn teimlo bod hyn wedi rhoi mwy o bwysau ar y staff presennol, yn enwedig gan fod disgwyl i'r nifer is o staff ymgymryd â cham cyntaf y gwaith arsylwi manylach lle byddai aelod o staff yn darparu gofal un i un. Byddai hyn yn lleihau'r gymhareb staff a fyddai ar gael i'r holl gleifion eraill. Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd drafod y mater hwn â'r staff er mwyn penderfynu a yw'r lefelau staffio a'r trefniadau presennol yn briodol i helpu'r staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion ar Ward 14.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid adolygu polisiau a gweithdrefnau sydd wedi dyddio er mwyn helpu'r staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol
- Gallai'r gwasanaeth wneud mwy i gael adborth gan gleifion ac i ymgysylltu â'r cleifion fel grŵp yn amlach

- Mae angen cofnodi rhagor o fanylion mewn perthynas â digwyddiadau yn y clinig er mwyn sicrhau y gall y staff nodi unrhyw feysydd lle roedd digwyddiadau yn codi'n rheolaidd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo eu bod wedi datblygu cydberthnasau gwaith da â thimau a gwasanaethau iechyd meddwl eraill ar draws y bwrdd iechyd
- Roedd ffug 'arolygiad AGIC' wedi cael ei gynnal yn ddiweddar yn y clinig er mwyn helpu i nodi unrhyw faterion ar y wardiau
- Roedd cyfraddau cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol yn uchel ymhlith y staff yn y clinig.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Ni chododd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw drwy gydol yr arolygiad unrhyw bryderon â ni am eu gofal a'u triniaeth yn y clinig. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel ac y byddent yn gwybod gyda phwy y dylent siarad pe bai ganddynt bryder.

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion chwe chlaf (tri o bob ward) yn ystod yr arolygiad. Gwelsom dystiolaeth fod rhai o'r cleifion wedi cael asesiadau gofal iechyd corfforol adeg eu derbyn. Fodd bynnag, nodwyd enghreifftiau gennym hefyd lle nad oedd asesiadau wedi'u cynnal er gwaethaf risgiau hysbys. Er enghraifft, nodwyd bod un claf yn cwmpo'n rheolaidd, ond nid oedd unrhyw asesiad cwympiadau wedi cael ei gynnal. Roedd gan glaf arall anhwylder bwyta penodol ond ni welsom unrhyw dystiolaeth o asesiad gan ddefnyddio'r Adnodd Sgrinio Diffyg Maeth Cyffredinol yn ei gofnodion. Nodwyd gennym hefyd fod un claf yn ddiabetig ond y penderfynwyd mai risg isel ydoedd ac nad oedd angen asesiad risg maeth arno. Yn ein barn ni, roedd hyn yn benderfyniad clinigol anghywir.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob claf yn cael asesiad gofal iechyd corfforol priodol adeg ei dderbyn ochr yn ochr â'i asesiad iechyd meddwl.

Gwelsom ganllawiau anffurfiol yn nodi sut y dylai'r staff reoli'r claf â diabetes yn ei gofnodion. Fodd bynnag, roeddem o'r farn bod ei gyflwr yn gwarantu cynllun gofal a thriniaeth ffurfiol yn nodi sut i reoli a monitro ei gyflwr.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynllun gofal a thriniaeth ar waith ar gyfer pob claf y nodwyd bod ganddo gyflwr gofal iechyd, gan gynnwys mewnbwn gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol perthnasol er mwyn helpu'r staff i reoli ei gyflwr yn ddiogel.

Gwelsom dystiolaeth fod cleifion, gan gynnwys y claf â diabetes, yn destun arsylwadau corfforol rheolaidd yn ystod eu cyfnod yn y clinig. Dywedwyd wrthym fod cleifion wedi cael cymorth drwy fentrau hybu iechyd eraill. Er enghraifft, ni chaiff cleifion smygu ar dir yr ysbyty mwyach, a rhoddwyd cymorth i gleifion drwy therapi amnewid nicotin. Fodd bynnag, prin oedd y dystiolaeth a welsom o

ddeunyddiau hybu iechyd yn cael eu harddangos er mwyn annog y cleifion i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth hybu iechyd ar gael i helpu cleifion i wneud penderfyniadau sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd a'u llesiant.

Gofal urddasol a pharchus

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod wedi cael eu trin â pharch. Yn ogystal, gwelsom aelodau o'r staff yn neilltuo amser i'r cleifion ac yn eu trin yn garedig drwy gydol yr arolygiad.

Roedd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, nid oeddem o'r farn bod amgylchedd y wardiau yn helpu i gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion yn llawn. Er enghraifft:

- Nid oedd cyfleusterau ensuite yn yr ystafelloedd gwely.
- Roedd y ddwy ward yn wardiau rhywedd cymysg, ond nid oedd cyfleusterau toiled rhywedd-benodol ar y naill ward na'r llall
- Nid oedd unrhyw ardaloedd cymunedol rhywedd-benodol i gleifion ar y PICU
- Roedd yn rhaid i rai cleifion rannu ystafelloedd gwely ar Ward 14; roedd un ystafell gysgu â phedwar gwely a dwy ystafell gysgu â dau wely, gyda'r gwelyau yn cael eu gwahanu â llen nad oedd ond yn cynnig preifatrwydd sylfaenol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau, lle y bo'n bosibl, fod yr amgylchedd yn bodloni gofynion Deddf Iechyd Meddwl 1983 - Cod Ymarfer Cymru (2016) mewn perthynas ag ardaloedd a chyfleusterau toiled rhywedd-benodol dynodedig ar y ddwy ward

Dywedwyd wrthym mai dim ond cleifion o'r un rhywedd fyddai'n cael eu rhoi yn yr ystafelloedd cysgu. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth o bolisi na gweithdrefn a oedd yn dogfennu hyn. Gwnaethom drafod hyn â'r staff a chafodd 'Datganiad System Weithio Ddiogel' ei ddrafftio yn ystod yr arolygiad yn disgrifio sut y byddai'r ystafelloedd cysgu ar Ward 14 yn cael eu rheoli. Er bod hyn yn gam cadarnhaol, mae angen rhagor o waith i ddogfennu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer yr amgylchedd a diogelwch y wardiau rhywedd cymysg yn llawn.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ddatblygu polisi yn unol â'r canllawiau arferion gorau sy'n sicrhau y gellir cynnal diogelwch, preifatrwydd, urddas a hawliau cleifion ym mhob rhan o'r wardiau rhywedd cymysg ac y gellir cadw cleifion o'r un rhywedd yn ddiogel yn yr ystafelloedd cysgu.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Gwelsom dystiolaeth y gallai'r cleifion ddewis eu bwyd a'u dillad eu hunain i'w helpu i fod yn annibynnol. Roedd y cleifion yn gallu storio eu heiddo personol a phersonoli eu hystafelloedd lle y bo'n briodol. Roedd llyfrau a jig-sos ar gael yn y lolfeydd cymunedol ac roedd ardd awyr agored ar wahân ar gael i'r cleifion ar y ddwy ward. Fodd bynnag, yn ôl yr hyn a welwyd, nid oedd cyfleusterau therapi eraill ar gael ac ni welsom y cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn ystod yr arolygiad. Roedd campfa yn llawn cyfarpar ar gael i'r cleifion o'r ddwy ward ei defnyddio. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym gan y staff fod y gamfa yn aml yn cael ei defnyddio at ddibenion eraill, fel cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol ac er mwyn i'r cleifion gwrdd â'u hymwelwyr.

Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud mwy i sicrhau y gall y cleifion gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau therapiwtig a chymdeithasol wedi'u teilwra at yr unigolyn i'w helpu i wella.

Amserol

Gofal amserol

Gwelsom sawl enghraifft o'r staff yn darparu gofal amserol ac effeithiol i'r cleifion yn unol â'u hanghenion clinigol. Roedd prosesau cyfarfod sefydledig ar waith er mwyn helpu i roi gofal amserol i'r cleifion, gan gynnwys cyfarfodydd dyddiol ag uwch-reolwyr ac arweinwyr clinigol o bob rhan o'r ardal leol. Aethom i un o'r cyfarfodydd hyn a chlywsom drafodaethau cynhyrchol ynghylch anghenion gofal y cleifion, lefelau defnydd gwelyau, gofynion arsylwi cleifion a lefelau staffio.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff a'r cleifion yn rhyngweithio â'i gilydd mewn ffordd gyfeillgar a pharchus. Roedd y staff yn ymgysylltu'n llawn â'r cleifion ac yn cyfathrebu gan ddefnyddio iaith briodol ac effeithiol.

Roedd ffôn ar gael ar bob ward i'r cleifion ei ddefnyddio pe bai angen. Gallai'r cleifion ddefnyddio eu ffôn symudol eu hunain, yn amodol ar asesiad risg unigol. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth yn nodi sut y dylid rheoli defnydd cleifion o ffonau symudol a dyfeisiau electronig personol eraill.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ddatblygu polisi i roi arweiniad i'r staff ar ddefnydd cleifion o gyfarpar electronig, dyfeisiau ffôn symudol a mynediad i'r rhyngrwyd.

Gwelsom fod y cleifion yn cael taflenni croeso adeg eu derbyn a oedd yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn y gallai'r cleifion ei ddisgwyl yn ystod eu cyfnod yn aros ar bob ward. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am amseroedd prydau, trefniadau ymweld, sut i godi pryder a sut i gysylltu â'r Gwasanaeth Eirioli Iechyd Meddwl. Fodd bynnag, prin oedd y wybodaeth a oedd wedi'i harddangos ar y ddwy ward. Efallai yr hoffai'r bwrdd iechyd siarad â'r cleifion er mwyn cael gwybod pa wybodaeth fyddai'n ddefnyddiol iddynt pe byddai wedi'i harddangos ar y wardiau, er enghraifft, sut i gysylltu â sefydliadau lleol i gael cymorth cymheiriaid a chyfleoedd ymgysylltu cymdeithasol.

Dywedodd y staff wrthym fod gwasanaethau cyfieithu ar gael i gleifion y mae angen iddynt gyfathrebu yn Gymraeg. Fodd bynnag, wrth i ni edrych ar gofnodion y cleifion, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi. Mae Cod Ymarfer Rhannau 2 a 3 Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn nodi'n glir bod gweithio gyda chleifion gan ddefnyddio eu dewis iaith yn hollbwysig wrth oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag cyfranogi ac wrth sicrhau y caiff cleifion a gofalwyr perthnasol wir eu cynnwys yn y broses.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff dewis iaith a gofynion cyfathrebu cleifion eu cofnodi adeg eu derbyn fel sy'n ofynnol gan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

Hawliau a chydraddoldeb

Gwnaethom edrych ar gofnodion pum claf a oedd yn cael eu cadw ar y wardiau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd y ddogfennaeth a welsom yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac yn dilyn canllawiau Cod Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 2016 (y Cod). Ceir rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau yn adran Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl yr adroddiad hwn.

Roedd y cleifion yn cael llyfryn gwybodaeth adeg eu derbyn a oedd yn rhoi gwybod iddynt am eu hawliau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd eiriolwr iechyd meddwl ar gael i bob claf bob wythnos, a oedd yn rhoi gwybodaeth a chymorth i'r cleifion o ran unrhyw faterion a allai godi mewn perthynas â'u gofal.

Roedd polisïau ar waith i helpu i sicrhau bod yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg ar gael i bawb. Mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant gorfodol ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol fel rhan o'u rôl.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Yr Amgylchedd

Roedd yn siomedig nodi bod cyflwr cyffredinol y ddwy ward wedi gwaethygu'n sylweddol ers ein harolygiad blaenorol ym mis Tachwedd 2017. Roedd y materion a nodwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Nid oedd byrddau sgertin ar y waliau mewn rhai o'r ystafelloedd
- Roedd cryn dipyn o ddifrod i'w weld ar yr arwyneb gwaith yng nghegin y PICU ac nid oedd yn addas ar gyfer paratoi na gweini bwyd
- Roedd rhai eitemau dodrefn wedi'u rhwygo ac roedd darnau o dâp wedi'u defnyddio i gau'r rhwygau
- Roedd rhai o'r llenni wedi dod yn rhydd o'u bachau
- Roedd y waliau wedi hollti mewn mannau
- Roedd drysau ym mhob rhan o'r wardiau mewn cyflwr gwael ac roedd y cloeon magnetig ar rai o'r drysau tân yn ddiffygiol
- Roedd gwifrau wedi dod i'r golwg ar rai o'r goleuadau
- Roedd ôl traul ar y carpedi mewn mannau.

Roedd yn amlwg bod cyflwr gwael yr amgylchedd yn cyfyngu ar allu'r staff i ddarparu a rhoi gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Cawsom drafodaethau hirfaith â'r uwch-reolwyr am ein pryderon. Roedd yn galonogol gwybod fod y materion hyn eisoes wedi'u nodi ac wedi'u codi'n flaenorol gan y staff, a bod cais am gyfalaf wedi cael ei dderbyn er mwyn gallu cynnal rhaglen waith i ddatrys y materion hyn. Fodd bynnag, soniodd y staff wrthym ei bod wedi cymryd cryn dipyn o amser i faterion ystadau gael eu datrys yn y gorffennol, a dim ond amserlen ddangosol y gallai'r uwch-reolwyr ei rhoi i ni ar gyfer cwblhau'r gwaith adnewyddu. Er nad ydym wedi cyhoeddi hysbysiad sicrwydd ar unwaith o ganlyniad i'n pryderon mewn perthynas â'r materion amgylcheddol dan sylw, rhaid nodi nad oedd cyflwr y safle fel y'i gwelwyd yn adlewyrchu gwasanaeth iechyd meddwl modern i gleifion mewnol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y gwaith adnewyddu ei gwblhau mewn modd amserol fel mater o flaenoriaeth a rhoi adroddiad i AGIC ar y cynnydd a wnaed ers yr arolygiad, gan gynnwys amserlen ddiwygiedig ar gyfer cwblhau'r gwaith.

Rhaid i'r bwrdd iechyd hefyd ymdrin ag unrhyw faterion amgylcheddol y gellir eu hatgyweirio heb fod angen unrhyw raglen waith gynlluniedig ehangach, a datrys y materion hynny.

Wrth gael ein tywys o amgylch y wardiau, nodwyd gennym nad oedd unrhyw bwyntiau galw am nyrs wedi'u gosod yn ystafelloedd gwely'r cleifion ar PICU. Gwnaethom nodi hefyd, er bod pwyntiau galw am nyrs ar gael yn yr ystafelloedd gwely ar Ward 14, nad oeddent wedi'u lleoli'n agos at y gwelyau. Mae amrywiaeth o ganllawiau cenedlaethol ar gael, gan gynnwys y safonau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a ddatblygwyd gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion, sy'n nodi bod yn rhaid i aelodau o staff, cleifion ac ymwelwyr allu denu sylw gan ddefnyddio botymau panig, larymau strided neu larymau personol. Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Seiciatrig Dwys o fewn Gwasanaethau Cyffredinol i Oedolion hefyd yn nodi y dylid gosod botymau galw am gymorth mewn argyfwng ym mhob ystafell a bob hyn a hyn ar hyd y coridorau. Yn ystod yr arolygiad, cawsom wybod am ddigwyddiadau diweddar yn y clinig lle byddai pwynt galw am nyrs o bosibl wedi bod yn ddefnyddiol i'r cleifion ddenu sylw; nododd un claf ei fod wedi baglu a chwmpo dros gornel ei wely, a nododd un claf gwrywaidd fod claf benywaidd wedi ceisio dod i mewn i'w ystafell wely.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu ei drefniadau presennol er mwyn penderfynu a yw'n cydymffurfio â'r canllawiau cenedlaethol sy'n nodi y dylid sicrhau y gall aelodau o staff, cleifion ac ymwelwyr ddenu sylw pan fyddant yn y clinig, yn enwedig pan fyddant ar eu pen eu hunain yn eu hystafelloedd gwely.

Rheoli risg

Roedd amrywiaeth o bolisiau iechyd a diogelwch cyfredol ar gael ac roedd asesiadau risg priodol yn cael eu cynnal. Roedd y staff yn gwisgo larymau personol y gallent eu defnyddio pe bai argyfwng. Roedd asesiadau risg cyfredol ar waith ar gyfer pwyntiau clymu ac roedd torwyr clymau wedi'u lleoli ym mhob rhan o'r wardiau i'w defnyddio pe bai argyfwng hunan-niweidio.

Roedd Ward 14 yn cael ei defnyddio fel lle diogel dynodedig ar gyfer pobl sydd wedi cael eu cadw o dan Adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd ystafell ymgynghori yn cael ei defnyddio i gynnal asesiadau yn lle ystafell Adran 136 benodedig, ond nodwyd problemau gennym mewn perthynas â'i lleoliad a sut roedd wedi'i threfnu. Nid oedd yr ystafell yn cydymffurfio â'r safonau ffisegol ar gyfer cyfleusterau asesu seiciatrig Adran 136 a ddatblygwyd gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion. Cawsom wybod am ddigwyddiadau a oedd wedi digwydd yn yr ystafell ymgynghori, fel pobl yn cloi eu hunain yn yr ystafell ar eu pen eu hunain. Cawsom wybod hefyd am ddigwyddiad lle roedd unigolyn wedi ceisio creu pwynt clymu yn y toiledau cyhoeddus a oedd wedi'u lleoli drws nesaf i'r ystafell ymgynghori. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ar noson gyntaf yr arolygiad am yr heriau roeddent yn eu hwynebu wrth geisio ymdopi â'r broses ar gyfer Adran 136 ochr yn ochr â'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o ran darparu gofal i gleifion ar Ward 14.

Gwnaethom siarad â'r uwch-reolwyr am ein pryderon mewn perthynas â'r materion hyn. Cawsom wybod y byddai'r cyfrifoldeb dros reoli'r broses ar gyfer Adran 136 yn newid o staff Ward 14 i'r tîm argyfwng iechyd meddwl o fis Rhagfyr 2024.

Dywedwyd wrthym hefyd fod adolygiad wrthi'n cael ei gynnal i benderfynu a fyddai'n ymarferol creu ystafell Adran 136 ganolog i'w defnyddio gan yr ardal leol. Er y byddai hyn yn ddatblygiad cadarnhaol, ni chawsom ein darbwylo o hyd fod amgylchedd presennol yr ystafell ymgynghori yn addas at y diben fel lle diogel.

Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â'r broses ar gyfer Adran 136 o ran y trefniadau staffio ac o ran canlyniad yr adolygiad i ystyried ystafell Adran 136 ganolog
- Rhoi sicrwydd ynghylch y camau gweithredu a gaiff eu cymryd yn y cyfamser i gyrraedd y safonau ar gyfer cyfleuster asesu Adran 136 ac amlinellu sut y caiff unigolion eu cadw'n ddiogel dan ei ofal.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd yn amlwg bod y materion amgylcheddol a oedd i'w gweld ar y ddwy ward yn cyfyngu ar effeithiolrwydd unrhyw fesurau atal a rheoli heintiau a oedd ar waith. Rydym eisoes wedi nodi yn yr adroddiad nad oedd y dodrefn a'r gosodiadau mewn cyflwr da a oedd yn ei gwneud hi'n anodd ymgymryd â gwaith glanhau effeithiol. Yn ogystal, gwnaethom nodi meysydd eraill yr oedd angen eu gwella:

- Roedd y swyddfa nyrsio ar Ward 14 yn llychlyd ac yn cynnwys cabinet a oedd wedi rhydu
- Nid oedd sinc a oedd yn gweithio yn yr ystafell clinig ar Ward 14, ac roedd tâp ar y llawr
- Roedd poteli o ddioddydd wedi'u hagor yn cael eu storio ar y llawr yng nghegin y PICU
- Nid oedd unrhyw beiriant golchi dillad na pheiriant sychu dillad ar y naill ward na'r llall
- Roedd yr amgylchedd cyffredinol ar Ward 14 yn ymddangos yn anniben.

Gwelsom fod archwiliadau atal a rheoli heintiau rheolaidd yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, roeddem yn poeni am effeithiolrwydd yr archwiliadau hyn o ystyried y materion a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad. Nodwyd gennym hefyd fod angen diweddarau'r polisi ar gyfer Rolau, Cyfrifoldebau a Gweithdrefn Adnodd Archwilio ar gyfer Glendid a'r Weithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer Trefniadau Cadw Tŷ.

Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Sicrhau y caiff pob rhan o'r ysbyty ei glanhau'n effeithiol
- Sicrhau bod peiriant golchi dillad a pheiriant sychu dillad sy'n gweithio ar gael i gleifion ar y ddwy ward
- Sicrhau bod sinc sy'n gweithio ar gael i'r staff yn yr ystafell clinig ar Ward 14
- Atgyfnerthu'r broses archwilio a goruchwyllo er mwyn nodi materion sy'n ymwneud ag atal a rheoli heintiau a gweithredu yn eu cylch
- Adolygu rolau a chyfrifoldebau glanhau'r staff nyrsio a'r staff domestig er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â phob rhan o'r wardiau
- Diweddarau ac adolygu'r polisi ar gyfer Rolau, Cyfrifoldebau a Gweithdrefn Adnodd Archwilio ar gyfer Glendid a'r Weithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer Trefniadau Cadw Tŷ.

Gwelsom dystiolaeth fod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant priodol ar gyfer atal a rheoli heintiau a bod cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael.

Diogelu plant ac oedolion

Gwelsom fod mesurau addas ar waith i ddiogelu oedolion agored i niwed. Roedd arweinydd diogelu dynodedig wedi cael ei benodi ar gyfer y clinig a gwelsom fod y rhif cyswllt wedi'i arddangos yn y swyddfeydd nyrsio. Roedd prosesau sefydledig gan y bwrdd iechyd ar waith ac roedd atgyfeiriadau yn cael eu cyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Roedd lefelau cydymffurfiaeth staff ar y wardiau â chyrsiau hyfforddiant diogelu yn uchel a dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wybodaeth dda am y gweithdrefnau diogelu a'r trefniadau adrodd.

Dywedwyd wrthym fod digwyddiadau a phryderon diogelu yn cael eu trafod yn rheolaidd rhwng uwch-aelodau o'r staff a'r tîm aml-ddisgyblaethol er mwyn helpu i nodi unrhyw themâu a gwersi a ddysgwyd. Roedd yn gadarnhaol na fu fawr ddim digwyddiadau diogelu yn y clinig yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd unrhyw ddigwyddiadau diogelu yn cael eu cofnodi ar Datix. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu chwilio drwy gofnodion Datix er mwyn dod o hyd i ddigwyddiadau blaenorol. Efallai yr hoffai'r bwrdd iechyd ystyried cadw cofnod ar wahân o ddigwyddiadau diogelu er mwyn helpu i fonitro a dadansoddi tueddiadau'n haws ac mewn ffordd fwy effeithiol.

Nid oedd gan y naill ward na'r llall ystafell nag ardal benodedig lle gallai'r cleifion gwrdd ag ymwelwyr fel teulu a ffrindiau. Ar hyn o bryd, roedd y gampfa yn cael ei defnyddio at y diben hwn, a oedd yn golygu nad oedd y cleifion bob amser yn gallu defnyddio cyfleusterau'r gampfa.

Rhaid i'r bwrdd iechyd drefnu ystafell neu ardal sy'n addas i blant lle gall cleifion gwrdd ag ymwelwyr heb effeithio ar gleifion eraill yn y clinig.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau wythnosol yn cael eu cynnal ar y cyfarpar adfywio a'r cyfarpar brys ar y wardiau. Roedd y staff wedi dogfennu pryd roedd y gwiriadau hyn wedi'u cynnal er mwyn sicrhau bod y cyfarpar ar gael, ei fod yn gyfredol a'i fod yn ddiogel i'w ddefnyddio pe bai argyfwng fel claf yn llewygu. Fodd bynnag, nodwyd rhai meysydd i'w gwella gennym mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer llywodraethu a goruchwyllo'r silindrau ocsigen ar y wardiau:

- Nodwyd gennym nad oedd y silindrau ocsigen yn rhan o'r rhestr wirio wythnosol
- Nid oedd y masgiau a'r tiwbiau ocsigen yn rhan o'r cyfarpar brys
- Nid oedd arwydd i'w weld i rybuddio'r staff, ymwelwyr a chleifion o'r perygl bod silindr ocsigen yn yr ystafell
- Roedd y polisi ar gyfer Silindrau Nwy Meddygol wedi dyddio.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ddiweddarau'r polisi ar gyfer Silindrau Nwy Meddygol, sicrhau y caiff arwyddion rhybudd eu harddangos ac adolygu ei drefniadau presennol ar gyfer y stoc cyfarpar brys a'r trefniadau goruchwyllo cysylltiedig er mwyn sicrhau eu bod yn unol â chanllawiau gan Gyngor Adfywio'r DU.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd amrywiaeth o bolisiau rheoli meddyginiaethau perthnasol ar gael a dywedodd y staff wrthym eu bod yn gwybod sut i gael gafael arnynt. Gwnaethom adolygu trefniadau'r clinigau ar bob ward a gwelsom fod gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn ddiogel ar bob ward. Roedd yr oergelloedd yn cael eu cloi pan nad oeddent yn cael eu defnyddio ac roedd gwiriadau tymheredd yn cael eu cynnal o'r oergelloedd meddyginiaeth a'r ystafelloedd clinig er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu storio ar y tymheredd a argymhellir gan y gwneuthurwr. Gwnaethom nodi fod yr ystafell clinig ar Ward 14 braidd yn anniben a bod angen ei thacluso a'i had-drefnu.

Gwelsom fod y cyffuriau a reolir a'r cyffuriau a all gael eu camddefnyddio yn cael eu storio'n ddiogel ac yn cael eu rhoi'n gywir ar bob ward. Dywedwyd wrthym fod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal o'r stoc yn erbyn y cofnodlyfr cyffuriau a reolir. Fodd bynnag, dim ond ar PICU y gallem weld tystiolaeth o hyn, ac nid ar Ward 14.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y gwiriadau stoc dyddiol a gynhelir yn erbyn y cofnodlyfr cyffuriau a reolir eu cofnodi'n briodol ar Ward 14.

Roedd cymorth da ar gael gan gydweithwyr fferyllfa a oedd yn ymweld â'r ysbyty'n rheolaidd er mwyn cynnal archwiliadau a chynnig cymorth cyffredinol i'r meddygon a'r nyrsys clinigol. Gallem weld tystiolaeth bod y fferylllydd yn tynnu sylw at lofnodion a oedd ar goll ar y Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth (siartiau MAR). Yn ôl ein hadolygiad ni o'r siartiau MAR, gwelsom ei bod hi'n glir pa feddyginiaethau a oedd wedi cael eu rhoi i'r cleifion a bod y wybodaeth wedi cael ei chofnodi ar y pryd ac mewn modd cyson. Roedd hefyd yn gadarnhaol gweld bod tystysgrifau cydsynio i driniaeth yn cael eu storio ochr yn ochr â'r siart MAR ar gyfer pob claf. Fodd bynnag, gwnaethom nodi'r meysydd canlynol i'w gwella:

- Nid oedd mesuriadau taldra a phwysau'r cleifion bob amser wedi cael eu cofnodi
- Nid oedd y rheswm dros beidio â rhoi meddyginiaethau a oedd wedi'u rhagnodi i'r cleifion bob amser wedi'i gofnodi
- Nid oedd statws cyfreithiol un claf wedi'i gwblhau
- Nid oedd y dyddiad pan fyddai'r rheol tri mis ar gyfer cael cydsyniad gan gleifion yn dod i ben bob amser wedi'i gofnodi.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y siartiau MAR yn cael eu cwblhau'n briodol ac yn gywir.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Yn ôl yr hyn a welwyd, nodwyd gennym fod yr aelodau o staff a oedd yn gweithio ar bob ward yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Roedd pob un o'r staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth y maent yn ei roi i gleifion.

Yn ystod yr arolygiad, nodwyd gennym fod claf yn cael ei gadw ar wahân mewn rhan arall o'r PICU. Gwnaethom edrych ar yr ardal a oedd yn cael ei defnyddio i gadw'r claf ar wahân a nodwyd gennym nad oedd yn cydymffurfio â safonau arferion gorau na pholisi a gweithdrefnau'r bwrdd iechyd ar gyfer cadw cleifion ar wahân. Yn benodol:

- Nid oedd cloc i'w weld
- Nid oedd ffordd o reoli'r tymheredd o'r tu allan i'r ardal
- Nid oedd toiled, cawod na chyfleusterau golchi dwylo en-suite a oedd yn golygu bod yn rhaid dod o hyd i aelodau ychwanegol o staff cyn y gellid tywys cleifion o'r ystafell lle roeddent yn cael eu cadw ar wahân i ddefnyddio'r cyfleusterau hyn.

- Dywedodd y staff wrthym fod man dall hysbys yn yr ystafell yr oedd angen ei fonitro'n ofalus. Fodd bynnag, nid oedd drych man dall wedi'i osod yn yr ystafell yn ystod yr arolygiad; nododd y staff fod y cleifion wedi ei dynnu oddi yno.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau sydd ar waith ar y PICU i gadw cleifion ar wahân a gwneud gwelliannau i sicrhau bod polisiau'r bwrdd iechyd a safonau arferion gorau yn cael eu dilyn.

Dywedwyd wrthym y byddai'r staff yn arsylwi'n amlach ar gleifion pe byddai arwyddion parhaus bod mwy o risg yn gysylltiedig â'r cleifion hynny. Gwelsom fod cofnodion o arsylwadau manylach a oedd yn cael eu cynnal ar gleifion yn cael eu cwblhau ar yr adegau priodol fel y bo'n ofynnol. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd rhai o'r cofnodion yn cynnwys digon o fanylion o ran disgrifio'r ymgysylltu a fu a'r ymateb gan gleifion yn ystod eu cyfnod arsylwi manylach.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion o arsylwadau manylach yn cynnwys digon o wybodaeth sy'n berthnasol yn glinigol i allu llunio darlun manwl o lesiant ac iechyd meddwl y claf a'r risgiau posibl.

Nodwyd gennym hefyd fod y templedi a oedd wedi'u hargraffu ar gyfer arsylwadau manylach wedi'u llenwi ymlaen llaw â'r amseroedd a drefnwyd i'r staff nyrsio gynnal eu harsylwadau. Efallai yr hoffai'r bwrdd iechyd gyflwyno amrywiadau bach i'r amseroedd a drefnwyd er mwyn sicrhau rhywfaint o elfen anrhagweladwy, er mwyn lleihau'r risg y bydd y cleifion yn gallu rhagweld amser eu harsylwad nesaf.

Maeth a hydradu

Wrth i ni edrych ar gofnodion cleifion, gwelsom dystiolaeth fod anghenion maeth a hydradu'r cleifion yn cael eu hasesu. Fodd bynnag, gwnaethom nodi fod asesiad un claf adeg ei dderbyn wedi nodi bod ganddo anhwylder bwyta, ond ni welsom dystiolaeth fod siart bwyd a hylif yn cael ei chwblhau. Dywedwyd wrthym na allai'r clinig drefnu gwasanaethau wedi'u comisiynu gan ddeietegwyr na gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith. Roedd un uwch-aelod o staff y gwnaethom siarad ag ef o'r farn y gellid gwneud mwy i ddarparu deietau priodol i'r cleifion yn unol â'u hanghenion meddygol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion yn cael eu monitro'n briodol o safbwynt maeth a hydradu ac y gallant gael gfael ar wasanaethau deietetig arbenigol pan fo'u hangen er mwyn helpu i ddiwallu eu hanghenion meddygol yn llawn.

Nid oedd gan y naill ward na'r llall wasanaeth arlwyio ar y safle, ac felly roedd yn rhaid i'r staff nyrsio weini bwyd i'r cleifion. Gwnaethom nodi sawl mater o ran y trefniadau trin bwyd a oedd ar waith yn y clinig:

- Rydym eisoes wedi nodi yn yr adroddiad bod cryn dipyn o ddifrod i'w weld ar yr arwyneb gwaith yng nghegin y PICU ac nad oedd yn addas ar gyfer paratoi na gweini bwyd
- Dywedodd y staff wrthym nad oedd digon o le i'r troli a oedd yn dod â bwyd a diod i'r cleifion ar y PICU fynd drwy ddrws y gegin, a oedd yn golygu bod y bwyd yn cael ei weini o'r troli yn y ward yn hytrach nag o'r gegin
- Nid oedd y staff nyrsio yn siŵr a ddylid defnyddio chwiliedwyr bwyd wrth weini bwyd
- Nid oedd y staff nyrsio wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelwch bwyd.

Gwnaethom drafod hyn â'r uwch-aelodau o staff ac roedd yn gadarnhaol eu gweld yn datblygu datganiad system weithio ddiogel yn ystod yr arolygiad a oedd yn nodi'r gweithdrefnau trin bwyd y mae'n rhaid i'r staff nyrsio eu dilyn wrth weini bwyd i'r cleifion. Roedd hyn hefyd yn cynnwys gofyniad i'r staff nyrsio gwblhau hyfforddiant diogelwch bwyd. Dywedwyd wrthym hefyd fod y gwaith adnewyddu arfaethedig yn cynnwys cegin newydd i'r PICU.

Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal adolygiad o'r trefniadau arlwyio a diogelwch bwyd sydd ar waith ar y ddwy ward er mwyn nodi a oes angen unrhyw welliannau pellach er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r canllawiau arferion gorau perthnasol.

Cofnodion cleifion

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw ar ffurf ffeiliau papur. Gwelsom fod prosesau priodol ar waith i storio'r ffeiliau papur yn ddiogel er mwyn atal achosion o fynediad heb awdurdod a thor-cyfrinachedd.

Wrth i ni edrych ar gofnodion y cleifion, nodwyd gennym nad oedd dogfennau bob amser wedi'u ffeilio o dan y pennawd cywir ar eu cyfer, a oedd yn ei gwneud hi'n anodd dod o hyd i wybodaeth. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yng nghofnodion y cleifion ar Ward 14. Dywedwyd wrthym fod clerwr ward wrthi'n cael ei recriwtio a fyddai ar gael ar gyfer y ddwy ward. Byddai'r penodiad hwn yn fuddiol yn ein barn ni. Roedd angen rhai gwelliannau hefyd o ran cadw cofnodion; Ceir rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau yn adran Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal yr adroddiad hwn.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom edrych ar ddogfennau cadw statudol pum claf yn y clinig a chawsom ein sicrhau bod cyfrifoldebau'r bwrdd iechyd o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf) yn cael eu cynnal. Gwelsom dystiolaeth fod cleifion yn cael eu hysbysu am

eu hawliau adeg eu derbyn a'u bod yn cael eu hatgoffa ohonynt yn rheolaidd drwy gydol eu cyfnod yn aros yn y clinig. Roedd hefyd yn galonogol gweld bod cleifion wedi cael cymorth gan y staff i apelio yn erbyn eu cyfnod cadw mewn tribiwnlysoedd iechyd meddwl pe gofynnwyd iddynt wneud hynny.

Roedd y cofnodion yn drefnus ac yn hawdd eu deall. Roedd rhesymau clir yn cael eu dogfennu i ddangos pam mai eu cadw o dan y Ddeddf oedd y ffordd fwyaf priodol o ddarparu gofal i'r cleifion. Gwelsom fod asesiadau o alluedd yn cael eu storio ochr yn ochr â'r tystysgrifau cydsynio i driniaeth ar gyfer pob claf, a oedd yn arfer da yn ein barn ni.

Roedd trefniadau da ar waith i ddogfennu absenoldeb Adran 17 yn briodol. Gwelsom fod asesiadau risg addas yn cael eu cynnal ar gyfer ceisiadau absenoldeb a bod y ffurflenni yn nodi amodau a chanlyniadau'r absenoldeb ar gyfer pob claf.

Roedd Gweinyddydd y Ddeddf Iechyd Meddwl yn wybodus ac ar gael i helpu'r staff. Roedd y gweinyddydd yn cynnal archwiliadau o'r ddogfennaeth gyfreithiol bob chwarter er mwyn monitro cydymffurfiaeth â'r gofynion statudol.

Gwnaethom edrych ar y gwaith papur ar gyfer unigolion a oedd wedi ymweld â'r clinig o dan Adran 136 o'r Ddeddf hefyd a gwelsom fod pob achos wedi'i ddogfennu'n briodol.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: cynllunio a darparu gofal

Ochr yn ochr â'n hadolygiad o ddogfennau cadw statudol, gwnaethom ystyried y ffordd roedd Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn cael ei gymhwyso. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion chwe chlaf (tri o bob ward). Roedd angen sawl gwelliant yn unol â'r mesur:

- Nid oedd y cynlluniau gofal a thriniaeth bob amser yn adlewyrchu wyth maes bywyd unigolyn
- Nid oedd bob amser yn amlwg pa amcanion a oedd wedi'u pennu ar gyfer pob claf yn ei gynllun gofal a thriniaeth
- Roedd rhai amcanion wedi'u pennu, ond nid oeddent yn diffinio'r terfynau amser disgwyledig ar gyfer eu cyflawni
- Nid oedd dyddiad bob amser wedi'i nodi ar y cynlluniau gofal a thriniaeth
- Er bod llais y claf wedi'i adlewyrchu'n effeithiol yn y cynlluniau gofal a thriniaeth a welsom ar PICU, nid oedd yn hawdd nodi llais y claf yn y cofnodion a welsom ar Ward 14
- Nid oedd gwybodaeth yn nodi a oedd cleifion wedi cael cynnig copi o'u cynllun gofal a thriniaeth bob amser i'w gweld.

Rhaid i'r bwrdd iechyd wella'r broses a'r ddogfennaeth ar gyfer cynlluniau gofal a thriniaeth er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion Mesur Iechyd Meddwl Cymru 2010.

Nodwyd gennym fod rhai o'r cleifion wedi bod yn y clinig ers wythnos ond nad oedd cynllun gofal a thriniaeth ar waith ar eu cyfer eto. Er nad yw'r rheoliadau yn dynodi terfyn amser ar gyfer llunio cynllun gofal a thriniaeth, roeddem o'r farn y byddai'n fuddiol llunio cynllun gofal a thriniaeth ar gyfer cleifion yn fuan ar ôl iddynt gael eu derbyn i nodi eu hanghenion a'u canlyniadau er mwyn monitro cynnydd. Efallai yr hoffai'r bwrdd iechyd ystyried sicrhau bod cynllun gofal a thriniaeth yn cael ei lunio ar gyfer cleifion mewn modd mwy amserol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Roedd ymatebion y staff i holiaduron AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff y byddent yn argymhell y clinig fel lle i weithio ynddo ac y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir gan y clinig iddyn nhw eu hunain neu i'w ffrindiau a'u teulu. Dywedodd un aelod o'r staff:

“Ar y cyfan, mae PICU yn lle gwych i weithio ynddo, caiff pob aelod o'r tîm ei werthfawrogi ac mae pob un ohonom yn trin ein cleifion ag urddas a pharch drwy'r amser. Mae'n hawdd mynd at uwch-aelodau'r tîm, maent yn deall ein hanghenion ac anghenion y cleifion ac mae pob un ohonom yn gweithio hyd eithaf ein gallu.”

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff eu bod yn fodlon ar ymdrechion y sefydliad i'w cadw nhw a'r cleifion yn ddiogel a'u bod yn teimlo mai gofal cleifion yw prif flaenoriaeth y sefydliad.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Roedd yn ymddangos bod prosesau llywodraethu a goruchwylio priodol ar waith o ran gweithgareddau a chyfarfodydd i drafod materion yn ymwneud â gofal cleifion. Gwelsom fod pawb yn cydweithio'n dda â'i gilydd drwy gydol yr arolygiad. Fodd bynnag, drwy gydol yr adroddiad hwn, rydym wedi tynnu sylw at sawl maes ymarfer a nodwyd yn ystod yr arolygiad nad oedd yn cydymffurfio â'r safonau arferion gorau. Efallai yr hoffai'r bwrdd iechyd ystyried cynnal archwiliad o'i weithdrefnau yn erbyn y safonau arferion gorau ar gyfer unedau iechyd meddwl i gleifion mewnol er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r dystiolaeth orau sydd ar gael.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y dyddiad adolygu a oedd wedi'i nodi ar sawl un o bolisiau'r bwrdd iechyd wedi mynd heibio. Roedd y rhain yn cynnwys polisiau fel cydsynio i driniaeth, storio meddyginiaethau, atal a rheoli heintiau, arsylwadau corfforol, risgiau clymu a'r Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu unrhyw bolisiau a gweithdrefnau sydd wedi dyddio er mwyn helpu'r staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol, a'u rhannu â'r staff unwaith y byddant wedi'u cadarnhau.

Gwelsom fod copïau wedi'u hargraffu o amrywiol bolisiau a gweithdrefnau yn cael eu cadw mewn ffolderi ar bob ward. Fodd bynnag, nodwyd sawl enghraifft gennym

lle nad y fersiwn ddiweddaraf a oedd ar gael oedd wedi'i hargraffu. Rhaid i'r bwrdd iechyd fod yn ymwybodol y dylid adolygu unrhyw gopiâu wedi'u hargraffu o bolisiâu yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y canllawiau diweddaraf ar gael i'r staff bob amser.

Ar y cyfan, cawsom adborth cadarnhaol gan y staff am eu rheolwyr llinell uniongyrchol. Roedd pob aelod o'r staff yn teimlo y gallent ddibynnu ar eu rheolwr i'w helpu i gyflawni tasgau anodd ac i roi adborth clir ar eu gwaith.

Roedd pob aelod o'r staff ond un yn cytuno bod yr uwch-reolwyr yn ymrwymedig i ofal cleifion. Fodd bynnag, cawsom yr adborth canlynol gan rai aelodau o'r staff hefyd:

“Rwyf wrth fy modd yn gweithio ar Ward 14. Mae gen i gryn dipyn o hyder yn ein staff ac rwy'n credu ein bod ni'n gwneud gwaith da. Byddai adnoddau staffio gwell, mwy o nyrsys a chyfleoedd gwell i fanteisio ar therapïau o fudd, ond o ran yr hyn rydym yn ei wneud, rydym yn ei wneud yn dda. Yn fwy cyffredinol, mae gennym gydb berthnasau da â chydweithwyr lleol. Mae'r ymddiriedolaeth [sic] yn gyffredinol yn fater gwahanol. Mae diffyg strategaeth. Diffyg arweinyddiaeth. Does dim ymdeimlad bod materion yn cael eu huwchgyfeirio, neu os byddant yn cael eu huwchgyfeirio, bod unrhyw ganlyniad, newid neu welliant yn deillio o hynny.”

“Rwy'n teimlo yn ein lleoliad bod y tîm yn rhagorol ac yn effeithiol iawn wrth ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'n cleifion, gan gynnwys ein rheolwr llinell. Fodd bynnag, yn fy marn i, nid oes gan yr uwch-reolwyr fawr ddim dealltwriaeth o sut i redeg ward o ddifri ac maent yn poeni mwy am niferoedd gwelyau a chyllid na diogelwch cleifion ar y ward a'r dull seiliedig ar wella y maent yn esgus ei annog. Er enghraifft, drwy geisio derbyn mwy o gleifion na nifer y gwelyau, gwrthod ceisiadau am staff asiantaeth a gorfodi wardiau i weithio heb ddigon o staff gan nad ydynt am wneud galwadau ffôn neu am eu bod am arbed arian. Nid oes gen i unrhyw bryderon o ran ein gallu i ddarparu gofal da i'n cleifion ac i feithrin cydberthnasau cadarn i'w helpu i wella, ond rwy'n teimlo bod staff Band 8 ac uwch yn dibynnu llawer gormod ar ein hewylllys da.”

Rhaid i'r bwrdd iechyd fyfyrion ar y materion a godwyd yma gan y staff ac ymgysylltu ymhellach â phob aelod o'r staff er mwyn deall eu safbwyntiau yn llawn a rhoi sicrwydd i AGIC ynghylch y camau y bydd yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwelsom fod prosesau addas ar waith i uwch-aelodau o'r staff fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol. Roedd yn gadarnhaol gweld bod cyfraddau cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol ar y cyfan yn uchel ymhlith staff y clinig. Roedd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur o'r farn eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i ymgymryd â'u rolau.

Gwelsom dystiolaeth fod y staff wedi cael arfarniad blynyddol i drafod eu perfformiad ac i bennu amcanion blynyddol. Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael arfarniad, adolygiad blynyddol neu adolygiad datblygu yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur o'r farn eu bod yn gallu bodloni'r gofynion croes ar eu hamser yn y gwaith. Dywedwyd wrthym fod y clinig wedi cynnal ymgyrch recriwtio lwyddiannus yn ddiweddar, a oedd wedi lleihau nifer y swyddi nyrsio gwag ac wedi arwain at ostyngiad yn y staff asiantaeth a oedd yn cael eu defnyddio a'r gwariant ar staff o'r fath. Roedd y bwrdd iechyd hefyd wedi cyflwyno shifftiau gwaith 12 awr i staff y clinig yn ddiweddar, a oedd i'w weld yn gweithio'n dda.

Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym fod nifer y staff ar gyfer Ward 14 wedi cael ei leihau oherwydd gostyngiad yn nifer y gwelyau (o 20 i 16). Nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad fod aelodau o'r staff ar Ward 14 wedi nodi anawsterau wrth gynnal lefelau staffio diogel ar y wardiau pan gaiff staff eu hadleoli i gyflenwi yn yr ystafell Adran 136. Y gobaith yw y bydd y penderfyniad i newid y cyfrifoldeb dros reoli'r broses ar gyfer Adran 136 o staff Ward 14 i'r tîm argyfwng iechyd meddwl yn helpu i liniaru'r pwysau hwnnw. Fodd bynnag, dywedodd staff ar y ward wrthym fod disgwyl hefyd i'r lefelau staff presennol ymgymryd â cham cyntaf y gwaith arsylwi manylach lle byddai aelod o staff yn darparu gofal un i un. Roedd y staff yn teimlo bod y gostyngiad diweddar yn nifer y staff yn golygu bod y disgwyliad hwn a'u gallu i ymgymryd â cham cyntaf y gwaith arsylwi manylach wedi rhoi pwysau ychwanegol ar y staff presennol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ymgysylltu ymhellach â'r staff er mwyn deall eu pryderon yn llawn a phenderfynu a yw'r lefelau staffio a'r trefniadau presennol yn briodol i helpu'r staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion ar Ward 14.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Nid oedd yn ymddangos bod cyfarfodydd cyffredinol rheolaidd yn cael eu cynnal â'r cleifion ar y naill ward na'r llall er mwyn helpu i ymgysylltu â'r cleifion a chynnig cyfleoedd iddynt godi unrhyw faterion â'r staff. Ni welsom unrhyw dystiolaeth

ychwaith o broses strwythuredig i'r cleifion roi adborth ysgrifenedig i'r gwasanaeth. Nodwyd gennym fod bwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' wedi'i arddangos yn y PICU, ond nad oedd wedi cael ei ddiweddarw ers mis Mawrth 2023.

Rhaid i'r bwrdd iechyd wella ei brosesau mewn perthynas â chael adborth gan gleifion ac ymgysylltu â'r cleifion fel grŵp yn amlach. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff mentrau fel y bwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' a ddefnyddir i hysbysu cleifion am ganlyniadau eu hadborth eu diweddarw'n rheolaidd.

Gwelsom fod gwybodaeth wedi cael ei darparu i'r staff am ofynion y Ddyletswydd Gonestrwydd newydd. Roedd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod yn deall y Ddyletswydd Gonestrwydd a'u rôl o ran cyrraedd safonau'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn cytuno bod y bwrdd iechyd yn annog staff i godi pryderon pan fydd rhywbeth wedi mynd o'i le ac i rannu hyn â'r claf.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Gwelsom fod bwrdd Cipolwg ar Statws Cleifion wedi'i osod ym mhob swyddfa nyrsio a'u bod wedi'u gorchuddio er mwyn diogelu cyfrinachedd y cleifion pe byddai claf neu ymwelydd yn dod i mewn i'r ystafell.

Roedd system electronig sefydledig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Roedd hierarchaeth ar gyfer cofnodi digwyddiadau ac roedd trefniadau goruchwyllo rheolaidd ar waith fel y gellid monitro a dadansoddi faint o ddigwyddiadau oedd yn codi. Fodd bynnag, wrth i ni edrych ar enghreifftiau o ffurflenni digwyddiadau a oedd wedi'u cwblhau, nodwyd gennym nad oedd union leoliad y digwyddiad bob amser wedi'i gofnodi. Yn ein barn ni, byddai hyn yn cyfyngu ar y gallu i nodi unrhyw ardaloedd lle roedd digwyddiadau yn codi'n rheolaidd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â digwyddiad yn cael ei chofnodi'n gywir.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur fod eu sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am gangymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau a'u bod yn gwybod sut i roi gwybod am arferion anniwel. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn teimlo'n ddiogel yn codi pryderon am ofal cleifion neu

faterion eraill yn yr ysbyty a'u bod yn teimlo'n hyderus y byddai'r bwrdd iechyd yn mynd i'r afael â'u pryderon.

Gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cwblhau er mwyn monitro cydymffurfiaeth â gweithdrefnau'r ysbyty. Roedd trefniadau goruchwyllo effeithiol ar waith i olrhain achosion ac i sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu a nodwyd yn cael eu rhoi ar waith. Dywedwyd wrthym fod ffug 'arolygiad AGIC' wedi cael ei gynnal yn ddiweddar yn y clinig er mwyn helpu i nodi unrhyw faterion ar y wardiau. Roedd y fenter hon yn fenter gadarnhaol, yn ein barn ni.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo eu bod wedi datblygu cydberthnasau gwaith da â thimau a gwasanaethau iechyd meddwl eraill ar draws y bwrdd iechyd. Dywedwyd wrthym fod y cleifion a oedd yn cael eu derbyn i'r clinig yn briodol ar y cyfan a'u bod yn cyrraedd â'r ddogfennaeth gywir. Mae'r tîm triniaeth yn y cartref wedi gweithredu fel 'porthgeidwaid' i'r clinig, gan helpu i asesu cleifion a threfnu opsiynau amgen lle y bo angen. Dywedodd y staff wrthym fod aelodau'r tîm triniaeth yn y cartref hefyd yn cael eu cynnwys wrth gynllunio trefniadau rhyddhau a chynnal apwyntiadau dilynol â chleifion 72 awr ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Clinig Coety

Dyddiad yr arolygiad: 13, 14 a 15 Tachwedd 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Clinig Coety

Dyddiad yr arolygiad: 13, 14 a 15 Tachwedd 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Nodwyd enghreifftiau gennym lle nad oedd asesiadau gofal iechyd corfforol perthnasol wedi'u cynnal er	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob claf yn cael asesiad gofal iechyd corfforol perthnasol a phriodol adeg ei dderbyn ochr yn	Hybu iechyd	O dan y Broses Dderbyn bresennol mae angen cwblhau Asesiad Iechyd Corfforol.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau 14/02/25
				Mae Asesiadau Iechyd Corfforol ar waith ar gyfer holl gleifion presennol Ward 14 a'r UGDS.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau 14/02/25

	gwaethaf risgiau hysbys.	ochr â'i asesiad iechyd meddwl.		Er mwyn rhoi sicrwydd cynhaliwyd archwiliad i sicrhau bod y llwybr derbyn yn cael ei gwblhau. Bydd rheolwr y ward yn parhau â'r archwiliad hwn fel rhan o Archwiliad Misol y Rheolwr ac yn cyflwyno adroddiad i'r Uwch-nyrs. Caiff unrhyw themâu neu bryderon eu huwchgyfeirio drwy adroddiad yr Uwch-nyrs ar y prif bwyntiau i gyfarfod ADRP y gyfarwyddiaeth	Rheolwr y Ward Uwch-nyrs	Wedi'i gwblhau 14/02/25
2.	Nid oedd gan un claf â diabetes gynllun gofal a thriniaeth ffurfiol ar waith yn nodi sut i reoli a monitro ei gyflwr.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynllun gofal a thriniaeth ar waith ar gyfer pob claf y nodwyd bod ganddo gyflwr gofal iechyd, gan gynnwys mewnbwn gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol perthnasol er mwyn helpu'r	Hybu iechyd	O fewn y gwasanaeth i oedolion sy'n gleifion mewnol mae Gwasanaeth Deietetig Arbenigol ar gael i roi cymorth a chynghor pan fydd angen er mwyn sicrhau bod anghenion meddygol y cleifion yn cael eu diwallu. Er mwyn rhoi sicrwydd, cynhaliwyd archwiliad ar hap i sicrhau bod cynllun gofal ar waith ar gyfer pob claf y mae angen triniaeth diabetig arno Mae Eiriolwyr Diabetes wedi'u nodi ar bob ward.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau 14/02/25 a

		staff i reoli ei gyflwr yn ddiogel.		Mae'r tîm arbenigwyr diabetes wedi cytuno i roi hyfforddiant ychwanegol i wella gwybodaeth staff am ddiabetes a'u profiad ohono. Trefnwyd sesiynau hyfforddiant ar gyfer mis Mehefin i fis Rhagfyr 2025.		
3.	Nid oedd unrhyw wybodaeth hybu iechyd wedi'i harddangos i'r cleifion.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth hybu iechyd ar gael i helpu cleifion i wneud penderfyniadau sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd a'u llesiant.	Hybu iechyd	Yn anffodus, ar adeg yr arolygiad roedd yr holl hysbysfyrddau wedi'u tynnu i lawr oherwydd archwiliad Atal a Rheoli Heintiau diweddar. Mae hysbysfyrddau sy'n cydymffurfio â mesurau atal a rheoli heintiau bellach wedi cael eu gosod ar gyfer y cleifion ar y ward.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau 14/02/25
4.	Nid oeddem o'r farn bod amgylchedd y wardiau yn helpu i gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion yn llawn, yn enwedig mewn	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau, lle y bo'n bosibl, fod yr amgylchedd yn bodloni gofynion Deddf Iechyd Meddwl 1983 - Cod Ymarfer Cymru (2016)	Gofal urddasol a pharchus	Mae gan Ward 14 ac UGDS doiledau ar wahân ar gyfer dynion a merched. Ar adeg yr arolygiad, roedd yr holl hysbysfyrddau wedi'u tynnu i lawr ar Ward 14 yn dilyn archwiliad Atal a Rheoli Heintiau diweddar. Mae'r hysbysfyrddau bellach wedi'u hailosod â rhai sy'n cydymffurfio â mesurau atal a rheoli heintiau.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau 14/02/25

	perthynas â rhywedd.	mewn perthynas ag ardaloedd a chyfleusterau toiled rhywedd-benodol dynodedig ar y ddwy ward.		Mae'r holl ystafelloedd gwely ar UGDS yn rhai sengl. Ar Ward 14, mae ystafelloedd gwely amlfeddiannaeth ond nid yw'r rhain byth yn rhai cymysg. Ar Ward 14 mae lolfeydd un rhyw penodol hefyd.		
5.	Roeddem yn teimlo bod angen gwneud rhagor o waith i ddogfennu'r	Rhaid i'r bwrdd iechyd ddatblygu polisi yn unol â'r canllawiau arferion gorau	Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn	Cafodd system waith ddiogel ei roi ar waith a'i rhannu â'r gwasanaethau i gleifion mewnol yn ystod arolygiad AGIC, a chaiff y broses hon ei dilyn.	Uwch-nyrs	Wedi'i gwblhau 14/02/2025

	trefniadau llywodraethu yn y clinig ar gyfer yr amgylchedd a diogelwch y wardiau rhywedd cymysg.	sy'n sicrhau y gellir cynnal diogelwch, preifatrwydd, urddas a hawliau cleifion ym mhob rhan o'r wardiau rhywedd cymysg ac y gellir cadw cleifion o'r un rhywedd yn ddiogel yn yr ystafelloedd cysgu.		Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu polisi llety Un Rhyw. Mae'r fersiwn ddrafft wrthi'n mynd drwy broses gadarnhau'r Bwrdd Iechyd.	Tîm Nyrsio Corfforaethol	Yn mynd rhagddo Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig 30/04/2025
6.	Yn ôl yr hyn a welwyd, nid oedd cyfleusterau therapi ar gael ac ni welsom y cleifion yn cymryd rhan	Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud mwy i sicrhau y gall y cleifion gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau	Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn	Caiff gweithgareddau wedi'u teilwra at yr unigolyn eu darparu gan Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd ar y ddwy ward dan gyfarwyddyd staff nyrsio cofrestredig.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau 14/02/25
				Mae'r ddwy ward yn rhannu tîm o Therapyddion Galwedigaethol.	Tîm Therapi Galwedigaethol	Wedi'i gwblhau 14/02/25

	mewn gweithgareddau yn ystod yr arolygiad. Roedd campfa yn llawn cyfarpar ar gael i'r cleifion o'r ddwy ward ei defnyddio ond dywedwyd wrthym ei bod yn aml yn cael ei defnyddio at ddibenion eraill.	therapiwtig a chymdeithasol wedi'u teilwra at yr unigolyn i'w helpu i wella.		Yn ystod yr arolygiad, roedd swydd y Cydgysylltydd Gweithgareddau yn wag am fod deiliad blaenorol y swydd wedi symud ymlaen. Caiff y swydd ei llenwi ar sail barhaol, amser llawn ar 25.02.25. Bydd y Cydgysylltydd Gweithgareddau yn gyfrifol am gyflwyno'r broses o roi cynllun wythnosol strwythuredig ar waith.	Ward 14 Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau 17/02/25
				Gwnaed newidiadau i sicrhau na chaiff y gampfa ei defnyddio mwyach ar gyfer cyfarfodydd ac ymweliadau sy'n golygu ei bod bellach bob amser ar gael i'r cleifion ei defnyddio	Uwch-nyrs	Wedi'i gwblhau 17/02/25
				Mae amserlen o weithgareddau therapiwtig a chymdeithasol wedi'i harddangos yn yr UGDS ar hyn o bryd. Mae amserlen o weithgareddau wedi'i harddangos ar Ward 14 hefyd	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau 17/02/25
7.	Ni welsom dystiolaeth yn nodi sut y dylid rheoli defnydd cleifion o ffonau	Rhaid i'r bwrdd iechyd ddatblygu polisi i roi arweiniad i'r staff ar ddefnydd	Cyfathrebu ac iaith	Mae Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Cymru gyfan a pholisi gan y Bwrdd Iechyd sy'n cefnogi'r defnydd o ffonau symudol mewn lleoliadau ysbyty. Nid yw'r naill bolisi na'r llall yn gyfredol	Rheolwr y Ward	Yn mynd rhagddo Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig 30/06/2025

	symudol a dyfeisiau electronig personol eraill.	cleifion o gyfarpar electronig, dyfeisiau ffôn symudol a mynediad i'r rhyngrwyd.		mwyach. Gwnaed cais i ddiweddarau polisi'r Bwrdd Iechyd.		
8.	Wrth i ni edrych ar gofnodion y cleifion, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff dewis iaith a gofynion cyfathrebu cleifion eu cofnodi adeg eu derbyn fel sy'n ofynnol o dan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.	Cyfathrebu ac iaith	Dylid cwblhau gwybodaeth ddemograffig am y cleifion gan gynnwys eu dewis iaith yn unol â'r pecyn derbyn. Mae hyn yn cynnwys diweddarau systemau electronig neu gofnodion clinigol i adlewyrchu dewis iaith ar gyfer unrhyw gyfieithiadau. Cwblhawyd archwiliad o nodiadau derbyn ar Ward 14 ac yn yr UGDS. Bydd rheolwr y ward yn parhau â'r archwiliad hwn fel rhan o Archwiliad Misol y Rheolwr ac yn cyflwyno adroddiad i'r Uwch-nyrs. Caiff unrhyw themâu neu bryderon eu huwchgyfeirio drwy adroddiad yr Uwch-nyrs ar y prif bwyntiau i gyfarfod ADRP y gyfarwyddiaeth.	Uwch-nyrs	Wedi'i gwblhau 17/02/25

9.	Roedd cyflwr cyffredinol y ddwy ward wedi gwaethygu'n sylweddol ers ein harolygiad blaenorol ym mis Tachwedd 2017 ac roedd yn cyfyngu ar allu'r staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y gwaith adnewyddu ei gwblhau mewn modd amserol fel mater o flaenoriaeth a rhoi adroddiad i AGIC ar y cynnydd a wnaed ers yr arolygiad, gan gynnwys amserlen ddiwygiedig ar gyfer cwblhau'r gwaith.	Amgylchedd	Caiff hynt y gwaith i wella'r amgylchedd ei fonitro yng nghyfarfod ACRP y gyfarwyddiaeth. Caiff hynt tasgau ei fonitro yn erbyn dyddiadau cwblhau amcangyfrifedig. Mae'r uwch-nyrs yn cael cyfarfodydd rheolaidd â'r Cynllunwyr Cyfalaf â'r Rheolwr Cymorth Gweithredol. Caiff adborth ei rannu ag ADRP y gyfarwyddiaeth	Uwch-nyrs Rheolwr Cymorth y Gyfarwyddiaeth	Wedi'i gwblhau 17/02/25
10.	Roedd cyflwr cyffredinol y ddwy ward wedi gwaethygu'n sylweddol ers ein harolygiad blaenorol ym mis Tachwedd 2017 ac roedd yn cyfyngu ar allu'r staff i ddarparu	Rhaid i'r bwrdd iechyd hefyd ymdrin ag unrhyw faterion amgylcheddol y gellir eu hatgyweirio heb fod angen unrhyw raglen waith gynlluniedig ehangach, a	Amgylchedd	Fel rhan o'r Ffrwd Waith Amgylcheddol i Gleifion Mewnol mae system adrodd ystadau'n cael ei threialu ar hyn o bryd. Mae hon yn system electronig sy'n golygu y gellir olrhain ceisiadau am dasgau a statws cwblhau yn effeithlon, gan ei gwneud yn bosibl i dasgau gael eu categorïddio yn ôl natur frys, safle a math o dasg. Caiff adroddiadau Excel eu llunio i'w hadolygu mewn	Rheolwr Cymorth y Gyfarwyddiaeth	Wedi'i gwblhau 17/02/25

	gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.	datrys y materion hynny.		cyfarfodydd unwaith/ddwywaith y mis. Caiff unrhyw dasgau sy'n weddill > 90 diwrnod eu huwchgyfeirio'n ffurfiol i'r Adran Ystadau Caiff adolygiadau unwaith/dwywaith y mis eu cynnal gan Hyrwyddwyr Ystadau a Rheolwyr Cymorth Gweithredol i edrych ar unrhyw dasgau sydd heb eu cwblhau.		
11.	Nid oedd unrhyw bwyntiau galw am nyrs wedi'u gosod yn ystafelloedd gwely'r cleifion ar PICU. Nid oedd y pwyntiau galw am nyrs ar Ward 14 wedi'u lleoli'n agos at y gwelyau.	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu ei drefniadau presennol er mwyn penderfynu a yw'n cydymffurfio â'r canllawiau cenedlaethol sy'n nodi y dylid sicrhau y gall aelodau o staff, cleifion ac ymwelwyr ddenu sylw pan fyddant yn y clinig, yn enwedig pan	Amgylchedd	Mewn sefyllfaoedd lle mae claf yn peri risg iddo'i hun neu i eraill, caiff lefelau arsylwi er diogelwch priodol eu rhoi ar waith. Er diogelwch ymwelwyr, cynhelir pob ymweliad oddi ar y ward. Ar gyfer cleifion y mae angen iddynt gael hebryngwr gyda'u teulu, caiff hyn ei gynnwys yn eu cynllun gofal. Caiff cleifion â phroffiliau risg uchel eu lleoli yn agos at swyddfa'r nyrs er mwyn sicrhau'r prosesau arsylwi gorau a galluogi ymateb di-oed os bydd angen. Mae asesiadau risg pob claf yn gyfredol, a chânt eu diwygio a'u diweddarau mewn ymateb i unrhyw	Nyrs Arweiniol	Wedi'i gwblhau 17/02/25

		fyddant ar eu pen eu hunain yn eu hystafelloedd gwely.		ddigwyddiadau wrth iddynt gael eu derbyn. Dyma'r weithdrefn safonol yn dilyn unrhyw ddigwyddiad neu newid mewn sefyllfa glinigol. Mae larymau llaw unigol ar gael i bob aelod o'r staff, a rennir ar ddechrau pob shift ac y bydd y derbynnydd yn llofnodi ar eu cyfer ar y ddwy ward. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu ei system galw am nyrs ac ni ellir symud nac ychwanegu mannau galw yn yr ystafelloedd gwely. Er mwyn datrys hyn mae'r Bwrdd Iechyd wedi prynu larymau llaw ychwanegol a roddir i rai cleifion fel rhan o'r Cynllun Gofal a Thriniaeth yn ôl risg glinigol a nodwyd.		
12.	Gwnaethom nodi problemau mewn perthynas â lleoliad yr ystafell ymgynghori a oedd yn cael ei defnyddio fel lle diogel ar gyfer	Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol: Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â'r	Rheoli risg	Cyn yr arolygiad, cymeradwywyd cynnig cyfalaf ar gyfer ystafell Adran 136 ganolog yn yr Ysbyty Cyffredinol Brenhinol, ac roedd ward benodol wedi'i neilltuo at y diben hwn. Fodd bynnag, oherwydd amgylchiadau annisgwyl yn Ysbyty Tywysoges Cymru, roedd angen adleoli sawl ward, gan gynnwys y ward a	Rheolwr Gweithredol y Gyfarwyddiaeth Uwch-nyrs Nyrs Arweiniol	Yn mynd rhagddo Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig 30/04/2025

	unigolion sy'n cael eu cadw o dan Adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl a'r ffordd roedd yr ystafell wedi'i threfnu. Soniodd y staff hefyd am yr heriau roeddent yn eu hwynebu wrth geisio ymdopi â'r broses ar gyfer Adran 136 ochr yn ochr â'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o ran darparu gofal i gleifion ar Ward 14.	broses ar gyfer Adran 136 o ran y trefniadau staffio ac o ran canlyniad yr adolygiad i ystyried ystafell Adran 136 ganolog • Rhoi sicrwydd ynghylch y camau gweithredu a gaiff eu cymryd yn y cyfamser i gyrraedd y safonau ar gyfer cyfleuster asesu Adran 136 ac amlinellu sut y caiff unigolion eu cadw'n ddiogel dan eu gofal.		neilltuwyd ar gyfer ystafell Adran 136. Mae'r gwaith hwn yn rhan o gynllun gwella'r Bwrdd Iechyd, sy'n gofyn am raglen atgyweirio sylweddol. Hyd nes y nodir yn wahanol, caiff asesiadau Adran 136 eu cynnal yn yr ystafelloedd iechyd meddwl ar draws y Bwrdd Iechyd. Yng Nghlinig Coety, mae'r Tîm Datrys Argyfwng a Thriniaeth yn y Cartref bellach yn cydlynu'r holl asesiadau Adran 136. Tîm penodol ydyw, sy'n arbenigo mewn asesiadau argyfwng i sicrhau gofal parhaus i gleifion yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â'r broses ar draws y Bwrdd Iechyd. Caiff Polisi Gweithredol y T DATC ei adolygu fel rhan o'r gwaith gwella i sicrhau bod y 3 T DATC yn cyd-fynd â'i gilydd		
--	--	---	--	---	--	--

13.	Gwnaethom nodi llawer o faterion yn ymwneud ag atal a rheoli heintiau roedd angen eu gwella: Yn ogystal, roeddem yn poeni am effeithiolrwydd yr archwiliadau atal a rheoli heintiau o ystyried y materion a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad. Nodwyd gennym hefyd fod angen diweddarau'r polisi ar gyfer Rolau, Cyfrifoldebau a Gweithdrefn Adnodd Archwilio ar gyfer Glendid.	Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol: - Sicrhau y caiff pob rhan o'r ysbyty ei glanhau'n effeithiol - Sicrhau bod peiriant golchi dillad a pheiriant sychu dillad sy'n gweithio ar gael i gleifion ar y ddwy ward - Sicrhau bod sinc sy'n gweithio ar gael i'r staff yn yr ystafell clinig ar Ward 14 - Atgyfnerthu'r broses archwilio a	Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Cynhelir archwiliad glanhau misol gan y Goruchwylydd Cadw Tŷ. Er mwyn atgyfnerthu'r broses hon cynhelir yr archwiliad bellach gyda Rheolwr y Ward/yr Arweinydd Clinigol. Caiff hyn ei fonitro gan yr Uwch-nyrs.	Cyfleusterau Uwch-nyrs	Wedi'i gwblhau 17/02/25
				Mae Rheolwyr y Wardiau yn cynnal archwiliad atal a rheoli heintiau bob mis ar Adnodd Rheoli ac Orlhain Archwiliadau y Bwrdd Iechyd. Caiff pob cam gweithredu, gan gynnwys rhai heb eu cyflawni a rhai y mae eu dyddiad wedi mynd heibio, eu monitro ac adroddir arnynt drwy strwythur llywodraethu ADRP y Gyfarwyddiaeth ac ADRP y Grŵp Gofal	Rheolwyr y Wardiau Uwch-nyrs	Wedi'i gwblhau 17/02/25
				Caiff peiriant golchi a pheiriant sychu dillad newydd eu gosod yn lle'r hen rai fel rhan o'r cynllun Cyfalaf.	Rheolwr Cymorth y Gyfarwyddiaeth	Yn mynd rhagddo Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig 31/08/2025

		goruchwyllo er mwyn nodi materion sy'n ymwneud ag atal a rheoli heintiau a gweithredu yn eu cylch • Adolygu rolau a chyfrifoldebau glanhau'r staff nyrsio a'r staff domestig er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â phob rhan o'r wardiau • Diweddarau ac adolygu'r polisi ar gyfer Rolau, Cyfrifoldebau a Gweithdrefn Adnodd Archwilio ar gyfer Glendid a'r Weithdrefn Weithredu		Mae'r sinc yng nghlinig Ward 14 bellach yn gweithio'n iawn	Ystadau	Wedi'i gwblhau 17/02/25
				Mae polisi'r Bwrdd Iechyd ynglŷn â Rolau, Chyfrifoldebau a Gweithdrefn Adnodd Archwilio ar gyfer Safonau Glendid wedi'i uwchgyfeirio at y Rheolwr Cyfleusterau Rhanbarthol sydd wedi nodi bod y broses o ddiweddarau'r Weithdrefn hon wedi'i hatal ar hyn o bryd nes i'r Safonau Glanhau Cenedlaethol Newydd gael eu cyhoeddi gan y GIG yng Nghymru. Mae'r polisi presennol yn briodol o hyd ar yr adeg hon yn seiliedig ar gyllid/safonau presennol	Rheolwr Cyfleusterau a Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau 17/02/25

		Safonol ar gyfer Trefniadau Cadw Tŷ.				
14.	Nid oedd gan y naill ward na'r llall ystafell nac ardal benodedig lle gallai'r cleifion gwrdd ag ymwelwyr; ar hyn o bryd, roedd y gampfa yn cael ei defnyddio at y diben hwn, a oedd yn golygu	Rhaid i'r bwrdd iechyd drefnu ystafell neu ardal sy'n addas i blant lle gall cleifion gwrdd ag ymwelwyr heb effeithio ar gleifion eraill yn y clinig.	Diogelu plant ac oedolion	Fel rhan o gynlluniau gwella cleifion cânt eu hannog i adael y ward a defnyddio'r cyfleusterau cyhoeddus yn Ysbyty Tywysoges Cymru i gael cyswllt â'u teulu a'u ffrindiau pan ystyrir bod hynny'n briodol yn unol â'u hasesiad risg. Mae dwy ystafell gyfweld ar gael y tu allan i fynedfa ward 14 ac mae ystafell ar y llawr cyntaf a ddefnyddir fel ystafell ymweliadau teuluol sy'n addas i blant pan fydd asesiad risg	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau 17/02/25

	nad oedd y cleifion bob amser yn gallu defnyddio cyfleusterau'r gampfa.			priodol wedi bod ar gyfer ward 14 a'r UGDS. Gwneir pob ymdrech i sicrhau y caiff ymweliadau teuluol eu cynnal yn yr ystafell deulu sy'n addas i blant ar y llawr cyntaf. Ar yr adegau pan fydd cleifion wedi'u cyfyngu ac na fyddant yn gallu gadael y safle, caiff swyddfa Rheolwr y Ward ei defnyddio yn seiliedig ar risg.		
15.	Nodwyd rhai meysydd i'w gwella gennym mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer llywodraethu a goruchwyllo'r	Rhaid i'r bwrdd iechyd ddiweddarau'r polisi ar gyfer Silindrau Nwy Meddygol, sicrhau y caiff arwyddion rhybudd eu harddangos ac	Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol	Dim ond yn y troli brys y ceir silindrau ocsigen yn amgylchedd y wardiau i gleifion mewnol.	Rheolwyr y Wardiau	Wedi'i gwblhau 17/02/25
				Cynhelir archwiliadau dyddiol o gyfarpar brys. Caiff y rhain eu monitro gan yr Uwch-nyrs bob mis	Uwch-nyrs	Wedi'i gwblhau 17/02/25

	silindrau ocsigen ar y wardiau.	adolygu ei drefniadau presennol ar gyfer y stoc cyfarpar brys a'r trefniadau goruchwyllo cysylltiedig er mwyn sicrhau eu bod yn unol â chanllawiau gan Gyngor Adfywio'r DU.		Mae'r polisi ynglŷn â Silindrau Nwy Meddygol wedi cael ei adolygu a'i ddiweddu'n drylwyr yn ddiweddar drwy'r Grŵp Cyngori Nwyon Meddygol ac mae'n aros am y camau cadarnhau terfynol. Disgwylir i hyn gael ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2025	Swyddog Sicrhau Ansawdd a Chydymffurfiaeth	Yn mynd rhagddo Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig 30/04/2025
16.	Dim ond ar PICU y gallem weld tystiolaeth bod gwiriadau stoc dyddiol yn cael eu cynnal yn erbyn y cofnodlyfr cyffuriau a reolir, ac nid ar Ward 14.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y gwiriadau stoc dyddiol a gynhelir yn erbyn y cofnodlyfr cyffuriau a reolir eu cofnodi'n briodol ar Ward 14.	Rheoli meddyginiaethau	Disgwylir i Bolisi Cyffuriau a Reolir y Bwrdd lechyd gael ei gadarnhau a fydd yn sicrhau bod prosesau monitro yn cyd-fynd â'i gilydd ar draws yr holl gyfarwyddiaethau.	Fferyllydd Arweiniol	Yn mynd rhagddo Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig 30/04/2025
				Bydd y Fferyllydd Arweiniol yn rhoi hyfforddiant monitro cyffuriau a reolir a safonau atodlenni meddyginiaethau i bob ward.	Fferyllydd Arweiniol	Yn mynd rhagddo Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig 31/03/2025
				Caiff gwiriadau cyffuriau a reolir eu harchwilio bob 3 mis gan y fferyllydd clinigol dynodedig ar gyfer pob ward a'u rhannu â rheolwr y ward.	Fferyllydd Arweiniol	Wedi'i gwblhau 17/02/25

				Caiff gwiriadau cyffuriau a reolir eu monitro fel rhan o Archwiliad Rheolwr y Ward a chaiff unrhyw bryderon eu huwchgyfeirio drwy adroddiad yr Uwch-nyrs ar y prif bwyntiau i gyfarfod ADRP y gyfarwyddiaeth	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau 17/02/25
17.	Gwnaethom nodi rhai bylchau yn y wybodaeth allweddol a oedd wedi'i chwblhau am gleifion ar eu siartiau MAR.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y siartiau MAR yn cael eu cwblhau'n briodol ac yn gywir.	Rheoli meddyginiaethau	Mae'r Uwch-nyrs wedi cynnal archwiliad o sampl o siartiau MAR. Caiff siartiau MAR eu hadolygu drwy'r "Archwiliad Sicrwydd Rheolwyr Wardiau" a gynhelir bob wythnos gan Reolwr y Ward a'i fonitro gan y Uwch-nyrs Cleifion Mewnol a chaiff unrhyw bryderon eu huwchgyfeirio drwy adroddiad yr Uwch-nyrs ar y prif bwyntiau i gyfarfod ADRP y gyfarwyddiaeth	Uwch-nyrs Rheolwyr y Wardiau	Wedi'i gwblhau 17/02/25
18.	Gwnaethom edrych ar yr ardal a oedd yn cael ei defnyddio i gadw'r claf ar wahân a nodwyd gennym nad oedd yn cydymffurfio â	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau sydd ar waith ar y PICU i gadw cleifion ar wahân a gwneud gwelliannau i sicrhau bod polisiâu'r bwrdd	Gofal effeithiol	Mae safonau Cymdeithas Genedlaethol yr UGDSau (NAPICU) yn amlinellu safonau arfer gorau a gofynion sylfaenol. Bydd y Gyfarwyddiaeth yn adolygu'r trefniadau cadw ar wahân yn erbyn safonau NAPICU ac yn llunio meincnodau yn erbyn y ddarpariaeth	Rheolwr y Ward	Yn mynd rhagddo Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig 30/04/2025

	safonau arferion gorau na pholisi a gweithdrefnau'r bwrdd iechyd ar gyfer cadw cleifion ar wahân.	iechyd a safonau arferion gorau yn cael eu dilyn.		bresennol sydd gan y gyfarwyddiaeth, yn amlinellu meysydd i'w gwella ac yn rhannu â chyfarfod ADRP y Grŵp Gofal		
19.	nodwyd nad oedd rhai o'r cofnodion o arsylwadau manylach yn cynnwys digon o fanylion o ran disgrifio'r ymgysylltu a fu a'r ymateb gan gleifion yn ystod eu cyfnod arsylwi manylach.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion o arsylwadau manylach yn cynnwys digon o wybodaeth sy'n berthnasol yn glinigol i allu llunio darlun manwl o lesiant ac iechyd meddwl y claf a'r risgiau posibl.	Gofal effeithiol	Mae'r Polisi Arsylwi mewn Modd Diogel a Chefnogol yn nodi'r gofynion ar gyfer cofnodi. Mae wedi cael ei rannu â phob aelod o'r staff ac mae pawb wedi'i ddarllen. Cynhaliwyd archwiliad i sicrhau bod cofnodion arsylwi manylach yn cynnwys digon o wybodaeth sy'n glinigol berthnasol fel bod darlun manwl o lesiant claf wedi cael ei gofnodi. Caiff hyn ei nodi drwy adroddiad yr Uwch-nyrs ar y prif bwyntiau a'u monitro drwy ADRP y Grŵp Gofal	Uwch-nyrs Rheolwr y Ward Uwch-nyrs	Wedi'i gwblhau 17/02/25

20.	Roedd un uwch-aelod o staff y gwnaethom siarad ag ef o'r farn y gellid gwneud mwy i ddarparu deietau priodol i'r cleifion yn unol â'u hanghenion meddygol. Gwnaethom nodi hefyd fod asesiad un claf adeg ei dderbyn wedi nodi bod ganddo anhwylder bwyta, ond ni welsom dystiolaeth fod siart bwyd a hylif yn cael ei chwblhau.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion yn cael eu monitro'n briodol o safbwynt maeth a hydradu ac y gallant gael gafael ar wasanaethau deietetig arbenigol pan fo'u hangen er mwyn helpu i ddiwallu eu hanghenion meddygol yn llawn.	Maeth a hydradu	O fewn y gwasanaeth i oedolion sy'n gleifion mewnol mae Gwasanaeth Deietetig Arbenigol ar gael i roi cymorth a chynghor pan fydd angen er mwyn sicrhau bod anghenion meddygol y cleifion yn cael eu diwallu. Bydd yr Uwch-nyrs yn cynnal archwiliad ar hap o ddefnydd cleifion y mae angen prosesau monitro maeth a hydradu ar eu cyfer. Bydd rheolwr y ward yn parhau â'r archwiliad hwn fel rhan o Archwiliad Misol y Rheolwr ac yn cyflwyno adroddiad i'r Uwch-nyrs. Caiff unrhyw themâu neu bryderon eu huwchgyfeirio drwy adroddiad yr Uwch-nyrs ar y prif bwyntiau i gyfarfod ADRP y gyfarwyddiaeth Mae bwrdd hybu iechyd ar gael ar ward 14 ac yn yr UGDS	Rheolwr y Ward Uwch-nyrs Rheolwr y Ward Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau 17/02/25
-----	--	--	-----------------	--	--	----------------------------

21.	Gwnaethom nodi sawl mater o ran y trefniadau trin bwyd presennol sydd ar waith yn y clinig.	Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal adolygiad o'r trefniadau arlwygo a diogelwch bwyd sydd ar waith ar y ddwy ward er mwyn nodi a oes angen unrhyw welliannau pellach er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r canllawiau arferion gorau perthnasol.	Maeth a hyradu	Yn ystod arolygiad AGIC cafodd Datganiad System Weithio Ddiogel ei gwblhau a'i rannu â'r holl staff Cyfarfu'r Uwch-nyrs â'r Rheolwr Cyfleusterau Rhanbarthol a'r Rheolwr Arlwygo mewn perthynas ag adolygu arferion presennol y gyfarwyddiaeth. Caiff y wybodaeth hon ei rhannu a'i thrafod yng nghyfarfod Uwch-dîm Arwain y gyfarwyddiaeth Pob aelod o'r staff i gwblhau modiwl Diogelwch Bwyd ar-lein	Uwch-nyrs Uwch-nyrs Nyrs Arweiniol Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau 17/02/25
22.	Gwnaethom nodi sawl gwelliant roedd eu hangen er mwyn sicrhau bod y cynlluniau gofal a thriniaeth yn bodloni gofynion Mesur Iechyd Meddwl Cymru 2010.	Rhaid i'r bwrdd iechyd wella'r broses a'r ddogfennaeth ar gyfer cynlluniau gofal a thriniaeth er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y mesur.	Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: cynllunio a darparu gofal	Penododd y Bwrdd Iechyd ddau Arweinydd newydd ar Gynllunio Gofal a Thriniaeth i helpu i wella prosesau cynllunio a dogfennu gofal i ddiwallu anghenion y Mesur Iechyd Meddwl. Caiff yr arweinwyr eu rheoli gan Uwch-nyrs sydd newydd ei phenodi ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	Arweinwyr Cynllunio Gofal a Thriniaeth	Wedi'i gwblhau 17/02/25

				Mae arweinwyr Cynllunio Gofal a Thriniaeth yn sicrhau'r gydymffurfiaeth orau o ran hyfforddiant gan ddarparu sesiynau hyfforddi drwy Teams a chynnig sesiynau pwrpasol ar gyfer dull wedi'i dargedu.	Arweinwyr Cynllunio Gofal a Thriniaeth	Wedi'i gwblhau 17/02/25
				Mae arweinwyr Cynllunio Gofal a Thriniaeth wedi nodi nifer o Gynlluniau Gofal a Thriniaeth o ansawdd uchel sy'n cael eu defnyddio i rannu arferion da a thynnu sylw at y safon ddisgwyliedig	Arweinwyr Cynllunio Gofal a Thriniaeth	Wedi'i gwblhau 17/02/25
				Caiff pob Cynllun Gofal a Thriniaeth ei archwilio i sicrhau ei fod yn cyrraedd y safon ofynnol a chaiff y canlyniadau eu cofnodi ar y system Rheoli a Thracio Archwiliadau. Caiff perfformiad o ran hyn ei nodi drwy adroddiad Uwch-nyrs y gyfarwyddiaeth ar y prif bwyntiau a'u monitro drwy ADRP y Grŵp Gofal Caiff themâu a thueddiadau cyffredinol y Grŵp Gofal eu monitro gan yr arweinwyr Cynllunio Gofal a Thriniaeth a'r Uwch-nyrs ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu.	Uwch-nyrsys/ Uwch-nyrs ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	Wedi'i gwblhau 17/02/25

				ddogfennau rheoli ysgrifenedig o fewn eu meysydd. Caiff hyn ei nodi yn y Polisi ar gyfer Datblygu, Adolygu a Chymeradwyo Polisiâu i'r Sefydliad Cyfan. Mae'r rhaglen bolisi wrthi'n cael ei hadolygu a'r nod yw cyflwyno cam ychwanegol, sef anfon nodiadau atgoffa at yr arweinwyr polisi cyn i gyfnod adolygu'r polisi fynd heibio.		
24.	Gwnaeth rhai aelodau o'r staff godi pryderon gyda ni yn eu holiaduron staff.	Rhaid i'r bwrdd iechyd fyfyrion ar y materion a godwyd yn yr adroddiad gan y staff ac ymgysylltu ymhellach â phob aelod o'r staff er mwyn deall eu safbwyntiau yn llawn a rhoi sicrwydd i AGIC ynghylch y camau y bydd yn eu cymryd i fynd i'r	Llywodraethu ac arweinyddiaeth	Cynhaliwyd cyfarfod â'r Uwch-nyrs i ymgysylltu â'r staff ac i drafod materion a godwyd yn ystod yr arolygiad Bydd Rheolwyr y Wardiau yn cynnal sesiynau goruchwyllo rheolaidd ynghyd â Chyfarfodydd Ward er mwyn rhoi cyfleoedd i'r staff rannu unrhyw broblemau neu bryderon Caiff pryderon a themâu cyffredin eu huwchgyfeirio a'u trafod yn y Tîm Uwch-reolwyr	Rheolwyr y Wardiau Uwch-nyrs	Wedi'i gwblhau 17/02/25

		afael â'r pryderon a godwyd.		Mae sesiynau galw heibio anffurfiol 'Dweud eich Dweud' ar waith gyda'r Uwch-nyrs bob mis.		
25.	Roedd y staff yn teimlo bod y gostyngiad diweddar yn nifer y staff yn golygu bod eu gallu i ymgymryd â cham cyntaf y gwaith arsylwi manylach wedi rhoi pwysau ychwanegol ar y staff presennol.	Rhaid i'r bwrdd iechyd ymgysylltu ymhellach â'r staff er mwyn deall eu pryderon yn llawn a phenderfynu a yw'r lefelau staffio a'r trefniadau presennol yn briodol i helpu'r staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion ar Ward 14.	Gweithlu medrus a galluog	Yn dilyn yr adborth hwn, y flaenoriaeth oedd ymgysylltu â'r staff mewn trafodaethau. Yn y trafodaethau, pwysleisiwyd bod y broses o safoni'r gweithlu yn cael ei chynnal yn unol â'r ddeddf staffio diogel, er mwyn sicrhau y caiff aelodau o staff eu defnyddio'n ddarbodus mewn perthynas â'r lleihad yn nifer y gwelyau. Cafodd yr adolygiad o nifer y staff nyrsio ei gwblhau a'i fonitro drwy gyfarfod y gweithlu nyrsio. Pennir y gofynion staffio o ddydd i ddydd a phan fydd angen staff ychwanegol er mwyn diwallu anghenion y cleifion, caiff ceisiadau am staff ychwanegol eu cyflwyno. Mae pob cais ers rhoi'r trefniadau staffio newydd ar waith wedi cael ei gymeradwyo.	Uwch-nyrs	Wedi'i gwblhau 17/02/25

26.	Nid oedd yn ymddangos bod cyfarfodydd cyffredinol rheolaidd yn cael eu cynnal â'r cleifion ar y naill ward na'r llall. Ni welsom unrhyw dystiolaeth ychwaith o broses strwythuredig i'r cleifion roi adborth ysgrifenedig i'r gwasanaeth. Nid oedd y bwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' wedi'i arddangos yn y PICU wedi cael ei ddiweddarau ers mis Mawrth 2023.	Rhaid i'r bwrdd iechyd wella ei brosesau mewn perthynas â chael adborth gan gleifion ac ymgysylltu â'r cleifion fel grŵp yn amlach. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff mentrau fel y bwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' a ddefnyddir i hysbysu cleifion am ganlyniadau eu hadborth eu diweddarau'n rheolaidd.	Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu	Cynhelir cyfarfodydd cleifion wythnosol ar Ward 14 ac yn yr UGDS. Mae amser a lleoliad y cyfarfodydd hyn yn cael eu harddangos ar yr hysbysfwrdd i gleifion er mwyn codi ymwybyddiaeth. Mae bwrdd 'dywedoch chi, gwnaethom ni' yr UGDS wedi'i ddiweddarau, a bydd yn parhau i gael ei ddiweddarau bob mis yn dilyn adborth gan gleifion	Rheolwr y Ward Uwch-nyrs	Wedi'i gwblhau 17/02/25
-----	---	--	--	---	---------------------------------	------------------------------------

27.	Wrth i ni edrych ar enghreifftiau o ffurflenni digwyddiadau a oedd wedi'u cwblhau, nodwyd gennym nad oedd union leoliad y digwyddiad bob amser wedi'i gofnodi.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â digwyddiad yn cael ei chofnodi'n gywir.	Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol	Cynhaliwyd archwiliad i sicrhau bod yr 'union' leoliad wedi'i gwblhau. Caiff y wybodaeth hon ei rhannu yn adroddiad yr Uwch-nyrs ar y prif bwyntiau a'i monitro drwy ADRP y Grŵp Gofal	Tîm Datix Uwch-nyrs	Wedi'i gwblhau 17/02/25
-----	--	--	---	--	---------------------	----------------------------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Clare Yates

Teitl swydd: Nyrs Arwain Dros Dro

Dyddiad: 19/02/2025